

**Cynllun Datblygu Lleol
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Polisi 46**

**Datblygiad Twristiaeth Heb Fod Yn Barhaol
Sy'n Ymgorffori Llety Twristiaeth Effaith Isel.**

Mawrth 2015

Canllawiau Cynllunio Atodol

Cynnwys

1.0	Cyflwyniad.....	3
2.0	Cyd-destun Polisi	4
3.0	Llety Twristiaeth Effaith Isel o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.....	6
4.0	Gwybodaeth Angenrheidiol i Gefnogi Cais Cynllunio	8
5.0	Amodau Cynllunio.....	9
	Atodiad 1	10
	Eglurhad o enghreifftiau nodweddiadol o Lety Twristiaeth Effaith Isel posibl.....	10

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APCBB) yn Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) sydd â phwrpas arbennig ac felly mae'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gyflawni'r swyddogaeth gynllunio statudol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol.
- 1.2 Isod nodir dibenion deul dynodi Parc Cenedlaethol, fel y'u nodwyd yn Neddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 a'u diweddarau yn Neddf yr Amgylchedd 1995:
- Cadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt ac etifeddiaeth ddiwylliannol; a
 - Hybu cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.
- 1.3 Yn dilyn adolygiad ym 1974 o weithrediad Deddf 1949, o dan arweiniad yr Arglwydd Sandford, daeth argymhelliad pwysig i'r fei a ddaeth yn adnabyddus fel Egwyddor Sandford. Cafodd yr egwyddor hon ei hymgorffori yn Neddf 1995, sy'n golygu os oes gwrthdaro digymod rhwng dau brif bwrpas y Parc Cenedlaethol, yna dylai gwarchod harddwch naturiol fod yn drech na hybu mwynhad a dealltwriaeth y cyhoedd
- 1.4 Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gefnogi datblygu cynaliadwy priodol i annog lles economaidd a chymdeithasol ei gymunedau lleol. Mae Cynllun Rheoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (2010 - 2015) yn ceisio cyflawni hyn drwy ei weledigaeth (LC4 a LC6) sy'n nodi y bydd y Parc yn cefnogi enghreifftiau disglair o dwristiaeth gynaliadwy. Bydd y Parciau yn parhau i gefnogi'r Fforwm Twristiaeth Gynaliadwy, fel y gall rhanddeiliaid rannu arfer gorau ym maes twristiaeth gynaliadwy a chynghori Croeso Cymru.
- 1.5 Gellir diffinio Llety Twristiaeth Effaith Isel (LITEI) fel datblygiad llety ymwelwyr sydd, yn rhinwedd ei effaith amgylcheddol isel neu anymwthgar, naill ai'n gwella neu nad yw'n lleihau'n sylweddol, ansawdd yr amgylchedd ac, o ganlyniad, yn cael ei ganiatáu mewn lleoliadau lle na fyddai caniatâd ar gyfer datblygiadau confensiynol (yn deillio o S. Fairlie, 1996 diffiniad o Ddatblygiad Effaith Isel).
- 1.6 Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ceisio cefnogi llety cynaliadwy effaith isel i dwristiaid er mwyn annog "twf twristiaeth mewn modd cynaliadwy a gwneud cyfraniad cynyddol i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru" (Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 6, 2014). Bwriedir i'r canllaw hwn gynnig arweiniad mewn perthynas â Pholisi 46 a fydd yn cynorthwyo pawb sy'n ymwneud â llunio a phenderfynu ar gynigion o'r fath. Atgoffir ymgeiswyr nad yw'r ddogfen hon yn hollgynhwysfawr ac fe'u cynghorir i ymgynghori â'r holl bolisiau perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol wrth lunio eu cynllun.

2.0 **Cyd-destun Polisi**

- 2.1 Y cynllun datblygu ar gyfer yr ardal yw Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2007-2022 (CDLI) a fabwysiadwyd ar 17 Rhagfyr 2013.
- 2.2 Mae Polisi 46 y CDLI a'r paragraffau blaenorol 7.8.5 yn nodi safbwynt polisi mewn perthynas â datblygiadau effaith isel neu yn fwy penodol llety i dwristiaid effaith isel. Mae'n ceisio rheoli'r effaith y bydd agweddau ar y fath ddatblygiad yn ei gael ar y dirwedd. Mae'r polisi wedi ei gyflwyno'n llawn isod.

Polisi 46

Llety Gwyliau Heb Fod yn Barhaol

Caniateir datblygiad llety gwyliau heb fod yn barhaol mewn amgylchiadau eithriadol yn unig;

- a. Ile y mae'r ymgeisydd wedi dangos er bodlonrwydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol bod y datblygiad arfaethedig wedi'i integreiddio'n llawn i'r dirwedd trwy dopograffeg neu ddefnyddiau tir amgylchynol, yn enwedig pan y'i gwelir o lwybrau cyhoeddus a mannau ffafriol y tu allan i'r safle;**
- b. Ile y gellir darparu cyfleusterau ar y safle, gan gynnwys unrhyw lety ar gyfer rheolwr safle, cyfleusterau ystafell ymolchi, storfeydd, siopau manwerthu neu gyfleusterau tebyg, trwy drawsnewid adeiladau presennol os ydynt ar gael;**
- c. Ile na fydd y datblygiad yn cael ei feddiannu fel llety preswyl parhaol ac y bydd yn destun amod meddiannaeth dymhorol sy'n cyfyngu'r defnydd o'r safle i gyfnodau penodol drwy gydol y flwyddyn;**
- ch. Ile y bydd ffordd fynediad ddigonol i'r safle arfaethedig sy'n gallu derbyn lled y cerbydau sy'n ofynnol i symud y llety heb gael effaith niweidiol ar amwynder y briffordd.**

- 2.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC 7^{fed} Argraffiad 2014) yn diffinio datblygiad cynaliadwy yng Nghymru fel datblygiad sy'n gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenedlaethau mewn ffyrdd sydd:
- Yn hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal; ac
 - Yn gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu'i derfynau – gan ddefnyddio ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear yn unig a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.
- 2.4 Mae datblygu cynaliadwy yn cyd-fynd yn agos â'r ymrwymadau i fynd i'r afael â'r

newid yn yr hinsawdd y mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â nhw i leihau ôl troed ecolegol Cymru. Mae Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru yn amlinellu uchelgais i Gymru ddefnyddio'i chyfran deg o adnoddau'r ddaear a lleihau ein hól troed ecolegol o fewn cenhedlaeth i gyfartaledd yr adnoddau byd-eang, sef 1.88 hectar byd-eang fesul person. Mae'r ôl troed presennol yn dangos, pe bai pawb yn y byd yn byw fel rydyn ni'n byw, y byddem yn defnyddio adnoddau gwerth 2.7 planed. Er mwyn lleihau ôl troed ecolegol Cymru, bydd angen gostyngiad mawr yng nghyfanswm yr adnoddau rydyn ni'n eu defnyddio i gynnal ein ffordd o fyw. Bydd y polisi a'r canllawiau a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) yn gwneud cyfraniad pwysig i leihau'n hól troed, gan sicrhau datblygu cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

- 2.5 Mae PCC (7^{fed} Argraffiad 2014) yn nodi mai un o'r blaenoriaethau ar gyfer ardaloedd gwledig yw sicrhau economi wledig ffyniannus ac amrywiol lle yr ategir gweithgareddau sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth gan dwristiaeth gynaliadwy a mathau eraill o gyflogaeth mewn cefn gwlad sy'n gweithio

3.0 Llety Twristiaeth Effaith Isel o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

3.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (2013) yn ceisio cefnogi Datblygiadau Effaith Isel (DEI) a mabwysiadu ymagwedd gadarnhaol tuag at dueddiadau sy'n dod i'r amlwg am gynlluniau llety effaith isel (megis pebyll crwyn neu 'yurts', tipis a thai coed, gweler atodiad 1). Cynigion priodol fydd y rhai sy'n cael ychydig iawn o effaith ar y dirwedd a'r amgylchedd ac y gellir eu tynnu oddi yno heb adael olion parhaol.

3.2 Prif nodweddion Datblygiad Effaith Isel yw ei fod:

- wedi'i addasu'n lleol, yn amrywiol ac yn unigryw;
- yn seiliedig ar adnoddau adnewyddadwy;
- o faint a dyluniad priodol;
- yn weledol anymwthiol;
- yn gwella bioamrywiaeth a thirwedd;
- yn cynyddu mynediad cyhoeddus i fannau agored;
- ddim yn cynhyrchu llawer o draffig;
- yn gysylltiedig â bywoliaethau cynaliadwy;
- wedi'i gyd-drefnu trwy gynllun rheoli. (Maxey, L. Dr, 2009)

Bydd angen i bob cynnig LITEI ddangos ei fod yn ymgorffori pob un o'r elfennau uchod yn ei gynllun.

3.3 Bydd effaith pob cynnig ar y dirwedd a'r gymuned gyfagos yn cael ei hasesu o dan SPI, Polisi 1. Yn ogystal, bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiadau effaith isel, yn unol â TAN 6, ddarparu cynllun rheoli sy'n dangos sut y bwriedir i'r cynnig liniaru'r effaith ar yr amgylchedd, yn bennaf mewn perthynas ag allyriadau CO₂, prosesu gwastraff, ystod oes ddisgwyliedig y datblygiad, a chynlluniau adfer yn dilyn ystod oes y datblygiad (os yn berthnasol).

3.4 Ym mhob achos, ni fydd defnydd o strwythurau o'r math a ddefnyddir ar gyfer deiliadaeth breswyl barhaol yn dderbyniol. Dylai safleoedd fod ar gael yn unig at y dibenion twristiaeth y bwriadwyd hwy ar eu cyfer. Isod ceir rhestr o faterion y byddai angen eu dadansoddi wrth ystyried datblygiad o'r fath fel rhan o faes gwrsylla sy'n bodoli eisoes

- A fyddai'r cynnig yn arwain at strwythurau mwy parhaol ar y tir o ganlyniad i'r strwythurau newydd (e.e. decing)?
- A fyddai'r cynnig yn newid y modd y mae'r maes gwrsylla'n gweithredu y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi'i ganiatáu trwy'r caniatâd cynllunio defnydd tir ar gyfer maes gwrsylla penodol?
- A fyddai'r strwythurau'n cael eu tynnu oddi yno y tu allan i'r tymor gweithredol?

3.5 Un o'r prif ystyriaethau polisi yw'r graddau y bydd y strwythurau'n barhaol ac a fyddant yn cael eu symud o'r safle y tu allan i'r tymor. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus, felly, i fater a yw'r cynllun yn glynu at egwyddorion Datblygu Effaith Isel, neu a

fyddai'n cael ei asesu'n well o dan bolisi 47 y CDLI (2013), a fwriedir ar gyfer rheoli datblygiad sy'n cynnwys ffurfiau traddodiadol o lety gwyliau dros dro (pebyll, trelars, carafanau a cherbydau gwersylla)

- 3.7 Bydd angen ystyried priodoldeb Dyluniad yr LITEI yn ofalus, yn enwedig unrhyw strwythurau cymorth fel blociau toiledau a cheginau ac ardaloedd bwyta â gorchudd drostynt. Wrth ddylunio'r elfennau hyn o fewn cynllun LITEI bydd disgwyl i ymgeiswyr geisio ategu nodweddion nodedig traddodiadol a lleol sy'n briodol i'r lleoliad. Cynghorir ymgeiswyr i ddarllen y 'Canllawiau Cynllunio Atodol y Direwedd a Datblygiad' Awdurdod y Parc Cenedlaethol (APCBB 24 Hydref, 2014), am arweiniad ar ddatblygu cynllun sy'n briodol i'r dirwedd o'i gwmpas.
<http://www.beacons-npa.gov.uk/wp-content/uploads/Landscape-and-Development-SPG-Adopted-October-2014.pdf>
- 3.8 Dylid darparu cyn lleied o seilwaith ategol ag sy'n bosibl ar gyfer y cynlluniau LITEI arfaethedig; er enghraifft, dylid cyfyngu ar faint a nifer ffyrdd mynediad a llwybrau; cyfleusterau draenio, dylid cyfyngu ar faint cyflenwadau trydan a dŵr; dylai pyllau tân, llecynnau barbeciw, a nodweddion achlysurol eraill gael eu hintegreiddio o fewn dyluniad cyffredinol y cynllun. Wrth benderfynu ar y mathau hyn o geisiadau dylai'r holl fanion hyn gael eu cynnwys yn y cynlluniau a'r dogfennau ategol. Holl gysyniad y mathau hyn o gynlluniau yw bod eu heffaith ar yr amgylchedd yn fach, neu nad ydynt yn cael unrhyw effaith o gwbl, ac yn ddelfrydol dylent ychwanegu gwelliannau i'r amgylchedd.

4.0 Gwybodaeth Angenrheidiol i Gefnogi Cais Cynllunio

- 4.1 Fel rhan o unrhyw gais byddai Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn disgwyl derbyn lefel resymol o fanylder er mwyn ei alluogi i roi ystyriaeth gynhwysfawr i fanylion y cais. Oherwydd natur gymhleth y broses ceisiadau cynllunio, anogir ymgeiswyr i gyfathrebu â'r Awdurdod trwy'r gwasanaeth cyn-ymgeisio y mae'n rhaid talu amdano. Bydd y gwasanaeth hwn yn golygu y bydd modd gweld yn gynnar a oes angen gwybodaeth ychwanegol a/neu fewnbn arbenigol ac yn cynorthwyo i baratoi cynnig priodol er mwyn cyflwyno cais ffurfiol.
- 4.2 Darperir canllaw gan Lywodraeth Cymru trwy gyfrwng y ddogfen "gwneud cais am ganiatâd cynllunio a chaniatadau cysylltiedig eraill" ynghylch lefel y manylder sydd ei angen wrth gyflwyno ceisiadau llawn, ar gyfer y math hwn o gynnig datblygu.
- 4.3 Yn ychwanegol at y manylion hynny, byddai Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn disgwyl i'r dogfennau canlynol gael eu cyflwyno i gefnogi unrhyw gais:
 - a) Aseiad o'r Effaith Weledol ar y Dirwedd;
 - b) Cynllun Tirwedd;
 - c) Adroddiad Bioamrywiaeth;
 - ch) Cynllun Rheoli (sy'n cynnwys traffig, gweithgaredd twristaidd, rheoli ac adfer tir);
 - d) Manylion llawn o bopeth sy'n gysylltiedig â chynllun arfaethedig.

5.0 Amodau Cynllunio

- 5.1 Bydd amodau yn cael eu defnyddio i sicrhau; bod y defnydd gwreiddiol yn cael ei gadw, bod cyfyngiadau mynediad tymhorol addas ar waith lle mae cynlluniau plannu yn gwneud hyn yn angenrheidiol, y bydd unrhyw blannu neu adeiladu nodweddion ffiniau sy'n digwydd fel sy'n ofynnol gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn digwydd cyn gosod unrhyw lety ar y safle, bod dyluniad y llety yn briodol i'r lleoliad arfaethedig, bod mynediad i'r safle arfaethedig yn foddhaol o ran cyrraedd y safle a mynd i mewn iddo fel y gellir derbyn lled y cerbydau sy'n ofynnol ar gyfer symud y llety heb amharu ar amwynder na diogelwch y briffordd na'r dirwedd.
- 5.2 Mae'n debygol y gosodir yr amodau a ganlyn ar gynigion datblygu LITA:
- i. Dylai'r llety ond cael ei anheddu at ddibenion gwyliau
 - ii. Ni ddylai'r llety gael ei anheddu fel unig neu brif breswylfa person.
 - iii. Dylai perchnogion/gweithredwyr safle gadw cofrestr gyfredol o holl berchnogion/deiliaid y strwythurau unigol, a'u prif gyfeiriadau cartref, a rhaid sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael, ar bob adeg resymol i'r Awdurdod.
 - iv. Dylid symud pob uned a gymeradwywyd oddi ar y safle yn ystod y misoedd sydd y tu allan i'r tymor.
 - v. Bod mesurau i leihau effaith goleuadau i gefnogi'r dynodiad Awyr Dywyll Ryngwladol.
- 5.3 Y rheswm dros osod amodau o'r fath yw er mwyn sicrhau nad yw llety gwyliau a gymeradwyir yn cael ei ddefnyddio fel llety preswyl parhaol heb awdurdod. Fel rheol, bydd y gofrestr a grybwyllir yn (iii) uchod gan amlaf yn cael ei chasglu gan berchennog y safle cofrestredig neu berson a enwebir ganddo/ganddi.
- 5.4 Dylai amodau preswyliaeth dymhorol gadw cydbwysedd iach rhwng gwarchod yr amgylchedd ac osgoi gwaethygu natur dymhorol twristiaeth o fewn pob ardal unigol, gan atal unrhyw effeithiau negyddol ar fusnesau a swyddi lleol yn sgil hynny.

Atodiad I

Eglurhad o enghreifftiau nodweddiadol o Lety Twristiaeth Effaith Isel posibl

(Noder nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):

Tŷ coeden - Strwythur a adeiladwyd o gwmpas, nesaf at neu rhwng boncyff a changhennau coeden uwchben lefel y ddaear. Er mwyn ystyried strwythurau o'r fath yn Ddatblygiadau Effaith Isel yn unol â Pholisi 46 byddai angen iddynt fod yn fwy dros dro o ran eu natur na rhai mathau o Dai Coed sy'n drigfannau parhaol.

Tipi - Pabell gonigol Brodorion America sy'n cynnwys ffrâm â physt pren crwn wedi'u hamgylchynu gan haen drwchus o gynfas. Mae tipi yn strwythur dros dro (yn debyg iawn i unrhyw babell arall) ac felly dylid ei ddatgymalu pan fydd misoedd y tymor y cytunir y gellir ei ddefnyddio wedi mynd heibio. Fodd bynnag, yn wahanol i babell, mae codi tipi yn anodd ac yn cymryd llawer o amser ac felly ni fydd yn cael ei ddatgymalu'n rheolaidd.

Pabell Groen – Annedd gromennog grwn â gorchudd ffelt a ffrâm bren rwylog. Mae parhad y strwythurau hyn yn amrywio gan ddibynnu ar ei gynnwys/a yw wedi'i gysylltu i wasanaethau. Fodd bynnag, ar y cyfan byddai Awdurdod y Parc yn disgwyl eu bod yn cael eu datgymalu y tu allan i'r tymor.

Podiau boncyff (Pebyll pren) – Adeileddau pren, tebyg iawn i siediau sy'n strwythurau parhaol. Er y gallai fod yn wir eu bod yn gludadwy – gan amlaf os ydyn nhw'n cael eu cludo i safle yn eu cyfanrwydd. Nid oes sylfeini iddynt a gan amlaf nid ydynt wedi'u cysylltu i wasanaethau.

Cytiau Bugeiliaid - Mae Cwt Bugail yn fersiwn 19eg a 20fed ganrif o'r garafán fodern. Yn draddodiadol, fe'u defnyddiwyd gan fugeiliaid wrth fagu defaid ac wyna. Mae eu hadeiladwaith yn tueddu i amrywio ond mae gan y mwyafrif olwynion haearn a thopiau haearn rhychiog, yn aml gydag ochrau haearn rhychiog.

D.S. Mae yna ofynion isadeiledd i'r strwythurau hyn yn yr ystyr nad ydynt yn cynnwys cyfleusterau megis toiledau neu geginau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn dweud na all fod rhai achosion lle mae cyfleuster toiled ac ati o fewn pabell groen neu fel arall.